



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Beth yw cofrestru a phwy sydd angen cofrestru

Gwybodaeth am gofrestru a phwy
sydd angen cofrestru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 11 January 2017

Diweddariad olaf: 9 October 2026

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o
gofalcymdeithasol.cymru ac efallai
nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i

<https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/beth-ydy-cofrestru> am y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am gofrestru a phwy sydd angen cofrestru.

Beth yw cofrestru?

Rydyn ni'n cofrestru pobl sy'n gweithio mewn rolau penodol ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru i helpu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel. Pan fydd rhywun yn ymuno â'n Cofrestr mae'n golygu eu bod yn fedrus ac yn gymwys i weithio ym maes gofal cymdeithasol, a bod ganddyn nhw'r gwerthoedd cywir i ddarparu gofal a chefnogaeth dda i bobl Cymru.

Mae mwy na 66,000 o bobl wedi'u cofrestru gyda ni ar hyn o bryd. Maen nhw'n gweithio mewn amrywiaeth o rolau ym maes gofal cymdeithasol. Maen nhw wedi'u rhestru isod.

Rhaid i bawb ar y Gofrestr:

- feddu ar y cymwysterau cywir, neu fod yn gweithio tuag atyn nhw
- bod yn gorfforol ac yn feddyliol addas i weithio
- bod â'r cymeriad cywir ac yn gymwys
- dilyn y [Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a chanllawiau ymarfer](#)
- bwriadu ymarfer gofal cymdeithasol yng Nghymru
- ymarfer yn y maes sy'n ymwneud â'u cais am gofrestru.

Pwy sydd angen cofrestru gyda ni

Mae angen i bobl sy'n gweithio yn y rolau canlynol gofrestru gyda ni. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol.

☐ **Gweithwyr cymdeithasol**

Rhaid i chi gofrestru cyn i chi ddechrau gweithio fel gweithiwr cymdeithasol yng Nghymru. Mae 'gweithiwr cymdeithasol' yn deitl gwarchodedig. Mae hyn yn golygu ei bod yn anghyfreithlon defnyddio'r teitl oni bai eich bod wedi cofrestru gyda ni.

☐ **Myfyrwyr gwaith cymdeithasol**

Rhaid i chi wneud cais i gofrestru ar ôl i chi gael eich derbyn ar eich cwrs, a bod wedi cofrestru cyn i chi ddechrau yn lleoliad eich ymarfer cyntaf,

☐ **Gweithwyr gofal cymdeithasol:**

- gweithwyr cartrefi gofal i oedolion
- gweithwyr gofal cartref
- gweithwyr gofal plant preswyl
- gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd
- gweithwyr gwasanaeth llety diogel
- gweithwyr preswyl ysgolion arbennig.

Mae gennych chwe mis i gofrestru o'r dyddiad y byddwch chi'n dechrau gweithio yn eich rôl.

☐ **Rheolwyr gofal cymdeithasol:**

- rheolwyr gwasanaeth mabwysiadu
- rheolwyr cartrefi gofal i oedolion
- rheolwyr lleoliadau i oedolion
- rheolwyr eiriolaeth (gwasanaethau i blant a phobl ifanc)
- rheolwyr gofal cartref
- rheolwyr gwasanaeth maethu
- rheolwyr gofal plant preswyl

- rheolwyr canolfannau preswyl i deuluoedd
- rheolwyr gwasanaeth llety diogel
- rheolwyr preswyl ysgolion arbennig.

Rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru cyn eich diwrnod cyntaf mewn swydd newydd.

[Gwybodaeth am sut i gofrestru](#)

Beth sydd angen i chi ei wybod am gofrestru

•

Mae GCCarlein wedi newid lliw ond mae'r ffordd rydych chi'n ei ddefnyddio yr un fath a ddangosir yn fideo uchod.

Gweithio mewn mwy nag un rôl neu newid eich rôl

Os ydych chi'n gweithio mewn mwy nag un o'r rolau a restrir uchod, er enghraifft, fel gweithiwr cartref gofal oedolion a gweithiwr gofal cartref, neu os byddwch chi'n newid y math o rôl rydych chi'n gweithio ynddi, bydd angen i chi wneud cais am gofrestriad ychwanegol neu [newid eich cofrestriad](#) trwy eich cyfrif GCCarlein.

Os nad ydych yn siŵr a oes angen i chi gofrestru gyda ni neu erbyn pryd y dylech chi gofrestru, cysylltwch â ni yn cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru a byddwn yn hapus i helpu.

Sut rydyn ni'n rheoli'r Gofrestr

Rydyn ni'n defnyddio Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2024 i reoli'r Gofrestr. Mae'r rheolau hyn yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac maen nhw'n sail i gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol.

- [Rheolau Cofrestru 2024](#)

PDF 557KB

- [Rheolau Cynnwys Y Gofrestr 2024](#)

PDF 174KB

Faint o bobl sydd ar y Gofrestr?

Ers Medi 2026, y nifer o bobl gofrestredig yw:

- 6,953 gweithiwr cymdeithasol
- 5 rheolwr gwasanaeth mabwysiadu
- 1,366 rheolwr cartrefi gofal i oedolion
- 27,577 gweithwr cartrefi gofal i oedolion
- 14 rheolwr lleoli oedolion
- 3 rheolwr eirioli i blant a phobl ifanc
- 1,075 rheolwr gofal cartref
- 24,117 gweithwr gofal cartref
- 24 rheolwr gwasanaeth maethu
- 526 rheolwr gofal preswyl i blant (gan gynnwys gofal preswyl diogel)
- 5,706 gweithwr gofal preswyl i blant (gan gynnwys gofal preswyl diogel)
- 6 rheolwr canolfan preswyl i deuluoedd
- 113 gweithwr canolfan preswyl i deuluoedd
- 4 rheolwr ysgol breswyl arbennig
- 43 gweithiwr ysgol breswyl arbennig
- 784 myfyriwr gwaith cymdeithasol.

Ers 1 Hydref 2022, rydyn ni wedi:

- derbyn 642 cais gan bobl a gymhwysodd y tu allan i'r DU
- cofrestru 316 person sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU. Nodwch y gallai'r pobl hyn fod wedi gwneud cais cyn 1 Hydref 2022.

Mae 376 person a gymhwysodd y tu allan i'r DU ar y Gofrestr.

Adroddiadau'r gweithlu

Bob blwyddyn, rydyn ni'n cyhoeddi adroddiadau data ar y wybodaeth a roddir i ni gan ymgeiswyr a phobl cofrestredig.

[Gweld holl adroddiadau data cofrestru](#)

Chwilio'r Gofrestr

[Gweld pwy sydd wedi cofrestru gyda ni](#)